JUDICIAL
APPOINTMENTS
COMMISSION

. . . . . .

Pecyn Gwybodaeth:

00435 Dirprwy Farnwr Rhanbarth (Sifil) 2009/10

. . . . . .

CYNNWYS

RHAGARWEINIAD.....2
A YDYCH YN GYMWYS? 3
ADDASIADAU RHESYMOL.....6
DISGRIFIAD SWYDD 7
Y BROSES DETHOL.....9
CYSYLLTIADAU A RHAGOR O WYBODAETH.....11
CANOLWYR A ENWEBIR GAN Y COMISIWN PENODIADAU BARNWROL.....13
COMISIYNWYR Y COMISIWN PENODIADAU BARNWROL.....14

RHAGARWEINIAD

Mae'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol (y Comisiwn) wrthi'n gwahodd ceisiadau am Ddirprwy Farnwyr Rhanbarth (Sifil). Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **22 Hydref 2009.** Mae swyddi ar gael ledled Cymru a Lloegr ar bob Cylchdaith.

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys y wybodaeth y mae ei hangen arnoch ynglŷn â'r penodiad. Mae'n cynnwys y meini prawf cymhwysedd a'r disgrifiad swydd. Mae hefyd yn disgrifio'r broses dethol y bydd y Comisiwn yn ei dilyn, gan nodi'r dyddiadau perthnasol a chynnig cyngor ynglŷn â sut mae paratoi ar gyfer gwahanol gamau'r broses hon.

Mae 193 o swyddi gweigion ar gael yn y cylchdeithiau a ganlyn:

Cylchdaith	**Nifer Swyddi Gweigion**
Canolbarth Lloegr	25
Gogledd-ddwyrain Lloegr	25
Gogledd Lloegr	25
De-ddwyrain Lloegr	100
Cymru	16
Gorllewin Lloegr	2

Mae medru'r Gymraeg yn hanfodol ar gyfer 4 o'r 16 swydd wag yng Nghymru. Bydd yn rhaid cael geirda ychwanegol ar gyfer y swyddi hyn er mwyn asesu eich gallu i gynnal gwrandawiad yn Gymraeg.

Cyn i chi allu cael eich ystyried i'ch penodi, mae gofynion cymhwysedd y mae'n rhaid ichi eu cyflawni. Mae gofyn i'r Comisiwn hefyd asesu'ch cymeriad a bydd yn gwneud hynny yr un pryd ag y bydd yn gwneud ei benderfyniadau terfynol ynglŷn â dethol. Cyn ichi ymgeisio, dylech ddarllen y gofynion hyn a'r canllawiau a ddefnyddir gan y Comisiwn i asesu cymeriad. Mae'r rhain i'w gweld ar ein gwefan (www.judicialappointments.gov.uk) ynghyd â disgrifiad swydd llawn (gan gynnwys manylion am awdurdodaeth) ac amlinelliad o'r telerau ac amodau gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r swydd hon. Bydd angen i chi hefyd allu dangos y rhinweddau a'r galluoedd sy'n ofynnol ar gyfer y swydd hon; gellir gweld y rhain ar y Ffurflen Gais.

Corff annibynnol yw'r Comisiwn a'r corff hwn sy'n dethol ymgeiswyr ar gyfer swyddi barnwrol. Bydd yn gwneud hynny ar sail teilyngdod, drwy gystadleuaeth deg ac agored, gan ddethol o blith yr ystod ehangaf o ymgeiswyr cymwys.

A YDYCH YN GYMWYS?

Nid y meini prawf isod yw'r unig feini prawf a bydd gofyn i ymgeiswyr ddangos y rhinweddau a'r galluoedd sy'n ofynnol ar gyfer y swydd hon.

Penodir Dirprwy Farnwyr Rhanbarth (Sifil) gan yr Arglwydd Ganghellor o dan a8(1) Deddf Llysoedd Sirol 1984 fel y'i diwygiwyd.

Er mwyn bod yn gymwys i'ch penodi, rhaid ichi gyflawni'r gofynion a ganlyn:

Gofyniad statudol

Mae rhywun yn gymwys i'w benodi os yw'n gymwys i'w benodi'n Farnwr Rhanbarth neu os yw'n dal swydd Barnwr Rhanbarth neu wedi dal y swydd honno. O dan Adran 9 y Ddeddf uchod, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol 1990 a pharagraff 15 Atodlen 10 Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, y gofyniad statudol ar gyfer penodi unigolyn yn Farnwr Rhanbarth yw bodloni'r amod cymhwysedd penodiad barnwrol ar sail 5 mlynedd.

Mae Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 wedi cyflwyno'r amod cymhwysedd penodiad barnwrol. Lle mae hyn yn berthnasol, nid yw cymhwyso ar gyfer swydd farnwrol yn seiliedig bellach ar feddu ar hawl i ymddangos am gyfnod penodol. Bydd yn rhaid i chi ddangos:

- Eich bod wedi meddu ar gymhwyster cyfreithiol perthnasol;
- Am y cyfnod gofynnol; a
- Thra bod gennych y cymhwyster hwnnw, eich bod wedi cael profiad cyfreithiol.

Cymwysterau Perthnasol yng Nghymru a Lloegr

Mae cymwysterau perthnasol yn golygu;

- twrnai;
- bargyfreithiwr; neu
- Cymrawd yn Sefydliad y Gweithredwyr Cyfreithiol

Rhaid i dwrnai (neu ddeiliad swydd farnwrol gyflogedig a arferai fod yn dwrnai) ymddangos ar Rôl y Twrneiod yng Nghymru a Lloegr, a gedwir o dan adran 6 Deddf Twrneiod 1974.

Fe'ch ystyrir yn gymwys fel bargyfreithiwr:

a) pan fyddwch wedi cwblhau'ch cyfnod disgybledd yng nghyswllt dod yn fargyfreithiwr; neu

b) os nad oes raid i chi gwblhau cyfnod disgybledd yng nghyswllt dod yn fargyfreithiwr, pan gewch eich galw i Far Cymru a Lloegr.

Pan fyddwch yn ymgeisio am benodiad barnwrol o dan b), bydd angen i chi roi manylion pam nad oes raid i chi gwblhau cyfnod disgybledd ar y ffurflen gais.

Profiad Cyfreithiol

Mae ystyr “ennill profiad ym maes y gyfraith” wedi’i nodi yn adran 52(2) i (5) Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer penodiad barnwrol, rhaid ichi nid yn unig fod yn berchen ar y cymhwyster perthnasol, ond rhaid ichi hefyd fod wedi bod yn ymwneud â 'gweithgarwch cysylltiedig â'r gyfraith' a chithau'n dal y cymhwyster hwnnw.

Ystyr Gweithgarwch Cysylltiedig â'r Gyfraith

Ystyrir gweithgarwch yn weithgarwch cysylltiedig â'r gyfraith, ni waeth a yw'r gweithgarwch hwnnw'n cael ei wneud am dâl neu beidio ac ni waeth a yw'r gweithgarwch yn weithgarwch amser llawn ynteu'n weithgarwch rhan-amser.

Mae pob un o'r canlynol yn weithgarwch perthnasol sy'n gysylltiedig â'r gyfraith;

a) Cyflawni swyddogaethau barnwrol unrhyw lys neu dribiwnlys
b) Gweithredu fel cyflafareddwr
c) Ymarfer neu fod yn gyflogedig fel cyfreithiwr
d) Cynghori (boed hynny yng nghwrs ymarfer neu gyflogaeth fel cyfreithiwr neu beidio) ynglŷn â rhoi'r gyfraith ar waith
e) Cynorthwyo (boed hynny yng nghwrs ymarfer o'r fath neu beidio) pobl sy'n rhan o achos er mwyn datrys materion sy'n codi o dan y gyfraith
f) Gweithredu (boed hynny yng nghwrs ymarfer o'r fath neu beidio) fel cyfryngwr yng nghyswllt ymdrechion i ddatrys materion sydd yn destun achos neu a allai fod yn destun achos oni chânt eu datrys
g) Drafftio (boed hynny yng nghwrs ymarfer o'r fath neu beidio) dogfennau y bwriedir iddynt effeithio ar hawliau neu ar ddyletswyddau unigolyn
h) Addysgu neu wneud gwaith ymchwil yn y gyfraith
i) Unrhyw weithgarwch sydd ym marn y penderfynwr perthnasol o natur debyg yn ei hanfod i weithgarwch a ddisgrifir ym mharagraffau (a) i (h)

Mae’r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi darparu'r arweiniad canlynol:

Bwriedir i gategori b) ymwneud â chyflafareddu lle y datrysir anghydfodau cyfreithiol ar sail weddol ffurfiol, strwythuredig. Er enghraifft, byddai'n cynnwys cyflafareddu sy'n dod o dan Ddeddf Cyflafareddu 1996, ac a wneir gan rywun sydd wedi'i achredu gan gorff megis CEDR (Y Ganolfan Datrys Anghydfodau'n Effeithiol).

Bwriedir i gategorïau d) - g) hefyd gynnwys gweithgareddau a gyflawnir ar sail weddol ffurfiol, strwythuredig, er enghraifft gwirfoddolwyr sy'n rhoi cyngor cyfreithiol mewn canolfan gyfraith, neu mewn canolfan cyngor ar bopeth. Serch hynny, ni fwriedir iddo gynnwys (dyweder) rhywun sy'n rhoi cyngor anffurfiol i gyfeillion a chymdogion.

Bwriedir i gategori (e) gynnwys cymorth cyfreithiol, yn hytrach na mathau eraill o gymorth.

Bwriedir i gategori (g) gynnwys drafftio sy'n golygu crebwyll a medrusrwydd cyfreithiol, megis drafftio contractau a lesiau. Nid yw'n fwriad cynnwys drafftio a allai effeithio ar hawliau neu ddyletswydd, ond sydd yn eu hanfod yn dasgau gweinyddol, e.e. llenwi gorchmynion gorfodi, neu hysbysiadau ynglŷn â chosbau.

Pwrpas (i) yw cynnwys rhai mathau o weithgarwch cysylltiedig â'r gyfraith na fyddent yn efallai'n gweddu'n union o dan (a) - (h)

Bydd eich ymwneud â gweithgareddau cysylltiedig â'r gyfraith am gyfnod yn cael ei ddiystyru os yw'r ymwneud hwnnw'n 'ddibwys o ran faint o amser a dreuliwyd ar y gweithgareddau hynny'.

Oedran

Nid oes trothwy uchaf nac isaf ar gyfer oedran ymgeiswyr am y swydd hon ac eithrio'r oedran ymddeol statudol i bob barnwr, sef 70. Rhaid i oedran rhywun adeg y penodiad ganiatáu ar gyfer cyfnod rhesymol o wasanaeth, fel rheol, oddeutu dwy flynedd.

Cenedligrwydd

Rhaid ichi lenwi datganiad cenedligrwydd yn y Ffurflen Gais. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y swydd, rhaid i chi fod yn un o ddinasyddion:

- y Deyrnas Unedig; neu
- un o wledydd eraill y Gymanwlad; neu
- Weriniaeth Iwerddon

Twrneiod y Llywodraeth

Polisi'r Arglwydd Ganghellor yw y bydd cyfreithwyr sy'n gweithio yng Ngwasanaeth Cyfreithiol y Llywodraeth yn gallu gwneud cais am gael eu penodi'n Ddirprwy Farnwr Rhanbarth (Sifil), ond na chânt eistedd mewn achosion sy'n ymwneud â'u Hadran hwy eu hunain.

Cymeriad

Mae gofyn i'r Comisiwn, yn ôl statud, benodi pobl o gymeriad da'n unig. Er mwyn asesu hyn, rydym wedi datblygu Canllawiau Cymeriad Da ac mae'r rhain i'w gweld ar ein gwefan yn www.judicialappointments.gov.uk. Gallwch hefyd ysgrifennu atom a gofyn am gopi (mae ein manylion cysylltu yn adran 'Cysylltiadau a Rhagor o Wybodaeth' y Pecyn Gwybodaeth hwn).

Mae'r Canllawiau Cymeriad Da yn rhoi rhywfaint o syniad ichi a allai unrhyw beth yn eich ymddygiad yn y gorffennol neu yn eich amgylchiadau ar hyn o bryd effeithio ar eich cais am benodiad barnwrol. Dylech eu darllen yn ofalus cyn llenwi'r Ffurflen gais.

Cwestiynau ynglŷn â chymeriad da a datganiadau

Mae gofyn ichi ateb nifer o gwestiynau ynglŷn â chymeriad da yn y Ffurflen Gais a rhaid ichi roi datganiadau priodol yn ôl y gofyn.

Nid yw'r rheini sy'n ymgeisio am swydd farnwrol wedi'u gwarchod gan adran 4(2) a 4(3) Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974. Felly, dylid rhoi datganiad ysgrifenedig ynglŷn ag unrhyw euogfarnau a fyddai fel rheol yn cael eu hystyried yn euogfarnau sydd wedi disbyddu o dan y Ddeddf honno (Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975). Rhaid ichi roi manylion pob trosedd yr ydych wedi'ch cael yn euog ohono neu y cawsoch rybuddiad amdano. Dylai'r manylion gynnwys natur pob trosedd, dyddiad yr euogfarn neu'r rhybuddiad a'r gosb a roddwyd.

Os oes achos o'r unrhyw fath ar y gweill, dylech roi manylion y trosedd y'ch cyhuddwyd ohono, neu'r broses disgyblu berthnasol, ac, os gwyddys hynny, ddyddiad tebygol

gwrando'r achos. Mae'n bwysig ichi roi gwybod inni am ganlyniad unrhyw achos a gwblheir yn ystod cyfnod ystyried eich cais. Yn yr un modd, os cewch eich cyhuddo o unrhyw drosedd neu os dygir unrhyw achos yn eich erbyn ar ôl ichi gyflwyno'ch cais, dylech roi gwybod inni ar unwaith (gweler adran 'Cysylltiadau a Rhagor o Wybodaeth' y Pecyn Gwybodaeth hwn).

Ym mhob achos, rhowch gynifer o fanylion ag y gallwch gan ddweud a oes unrhyw ffactorau lliniaru y credwch y dylai'r Comisiwn eu hystyried wrth asesu'ch cymeriad da.

Archwilio cymeriad da

Bydd y Comisiwn hefyd yn cynnal archwiliad ar bob ymgeisydd y mae'n bwriadu ei argymell i'w benodi. Darperir rhagor o wybodaeth am yr archwiliadau hyn ar wahân ar gyfer ymgeiswyr perthnasol.

Os byddwch wedi methu â datgan unrhyw faterion a ddaw i'r fei yn sgil yr archwiliadau hyn, gallai hynny amharu ar ganlyniad eich cais.

ADDASIADAU RHESYMOL

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i ystyried gwneud unrhyw addasiadau rhesymol y mae eu hangen i sicrhau eich bod yn gallu cymryd rhan yn deg yn y broses dethol. Mae'r Ffurflen Gais yn gofyn ichi nodi unrhyw drefniadau ac addasiadau y gall fod eu hangen arnoch. Ystyrir ceisiadau fesul achos ac ni ddefnyddir y wybodaeth a roddir wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â dethol.

Os argymhellir eich penodi, ystyrir gwneud addasiadau rhesymol os oes gennych anabledd yn unol ag ystyr y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, fel y'u gwneir ar gyfer barnwyr sy'n gwasanaethu. Os bydd angen unrhyw addasiadau rhesymol i'ch galluogi i dderbyn y penodiad, trafodir hynny ar wahân rhyngoch chi a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, ar ôl i'r Comisiwn gyflwyno'i argymhelliad.

DISGRIFIAD SWYDD

Mae swydd y Dirprwy Farnwr Rhanbarth yn swydd lle derbynnir ffi. Y gyfradd gyfredol yw £468 y dydd. Un o'r gofynion yw yr eisteddir am isafswm o 15 diwrnod ac uchafswm o 50 diwrnod bob blwyddyn.

Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi darparu'r wybodaeth a ganlyn:

PWRPAS Y SWYDD

1. Pwrpas swydd farnwrol yw gweinyddu cyfiawnder yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr heb nac ofn na ffafr, a heb na hoffter na malais.

AWDURDODAETH

2. Mae awdurdodaeth Dirprwy Farnwr Rhanbarth yn debyg i awdurdodaeth Barnwr Rhanbarth ac eithrio'r awdurdodaeth mewn achosion teulu. Gweler y Disgrifiad Swydd ar wahân er mwyn cael gwybod am awdurdodaeth Barnwyr Rhanbarth a Dirprwy Farnwyr Rhanbarth ym maes Cyfraith Teulu. Nid yw awdurdodaeth pob llys sirol a phob Cofrestrfa Ddosbarth yn union yr un fath. Bydd pob llys sirol yn gweithredu awdurdodaeth gyffredinol y llysoedd sirol a bydd y rhan fwyaf ohonynt yn gweithredu'r awdurdodaeth teulu. Bydd rhai llysoedd sirol yn gweithredu awdurdodaeth ansolfedd a bydd Cofrestrfeydd Dosbarth yn gweithredu awdurdodaeth yr Uchel Lys.

PRIF WEITHGAREDDAU

3. Bydd Dirprwy Farnwr Rhanbarth yn gweithredu'n gyhoeddus ac yn breifat, yn y llys neu yn ystafell y barnwr. Ymdrinnir â rhai ceisiadau ar bapur.

a) Paratoi ar gyfer treial a gwrando achosion

i) Darllen a dirnad papurau achos cyn i'r treial neu'r gwrandawiad ddechrau;

ii) Rheoli (yn unol â'r gyfraith a'r weithdrefn berthnasol) y ffordd y cynhelir achosion sifil gyda golwg ar:

- Ddyrannu achosion i'r trac hawliadau bychain, y trac cyflym neu'r aml-drac ac yn gyffredinol, rhoi'r pwerau rheoli achos ar waith a geir yn Rheolau'r Weithdrefn Sifil 1998.
- Sicrhau bod partïon, boed y rheini wedi'u cynrychioli ai peidio, yn gallu cael cyflwyno'u hachosion a'u hystyried mor llawn ac mor deg ag y bo modd;
- Hyrwyddo ym mhob achos y ffordd fwyaf hwylus o gwblhau'r busnes a hynny'n gydnaws â buddiannau cyfiawnder;

iii) Cynnal awdurdod ac urddas y llys. (Yn ystafell y Barnwr, bydd y drefn fel rheol yn fwy anffurfiol; mewn gwrandawiadau hawliadau bychain, bydd Dirprwy Farnwr Rhanbarth yn ysgwyddo rôl fwy uniongyrchol o ran cael y ffeithiau gan y partïon a gweld beth yw'r materion dan sylw.)

b) Ceisiadau yng nghwrs achos

i) Gwrando ceisiadau interim lle bo hynny'n briodol, gan sicrhau bod cyfarwyddiadau'n cael eu rhoi i baratoi achosion ar gyfer treial neu ar gyfer gwrandawiad hawliad bychan er mwyn canfod beth yw'r materion dan sylw rhwng y partïon a datgelu'r dogfennau perthnasol a thystiolaeth tystion.

ii) Gwrando ceisiadau ynglŷn â gorfodi dyfarniadau;

iii) Archwilio faint o gostau a hawlir gan bartïon a'u cynrychiolwyr cyfreithiol mewn achosion asesu manwl, neu gynnal asesiad cryno o'r costau lle bydd y rheolau'n caniatáu hynny;
iv) Rhoi ymwared interim lle bo hynny'n briodol.

c) Penderfynu ynglŷn â cheisiadau ar bapur

i) Bydd cyfran sylweddol o waith Dirprwy Farnwr Rhanbarth yn cynnwys penderfynu ynglŷn â cheisiadau (gan gynnwys ceisiadau am orchmynion cydsynio, ceisiadau am orfodi dyfarniadau, ceisiadau am gyfarwyddiadau gweithdrefn arbennig mewn ceisiadau ysgaru sy'n ymwneud â threfniadau ar gyfer plant) ac asesiad manwl o'r costau wrth ystyried y papurau a thrwy gymhwyso'r gyfraith i ffeithiau'r achos.

d) Dyfarnu

i) Penderfynu ynglŷn â hawliadau drwy ganfod y ffeithiau, rhoi'r gyfraith berthnasol ar waith yng nghyswllt y ffeithiau hynny a rhoi dyfarniad sy'n seiliedig ar reswm;
ii) Penderfynu ynglŷn â cheisiadau a wrthwynebir a materion eraill drwy ystyried y papurau a'r dystiolaeth a gyflwynir mewn unrhyw wrandawiad a chanfod y ffeithiau, rhoi'r gyfraith berthnasol ar waith, a lle bo hynny'n briodol, rhoi dyfarniad sy'n seiliedig ar reswm;
iii) Asesu a dyfarnu iawndaliadau a chostau, a phenderfynu ynglŷn â swm y taliad a sut y'i telir.
iv) Gwneud gorchmynion ynglŷn ag eiddo a chynhaliaeth, rhoi ymwared gwaharddol a gwneud gorchmynion meddiannu.

HYFFORDDIANT A BOD YN YMWYBODOL O'R DATBLYGIADAU CYFREITHIOL DIWEDDARAF

4. Rhaid i Ddirprwy Farnwyr Rhanbarth fynd ar gwrs cynefino preswyl y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol (5 niwrnod) ac eistedd yn y llys gyda Barnwyr Rhanbarth profiadol am 5 niwrnod cyn y rhoddir yr awdurdod iddynt eistedd. Disgwylir i'r rheini sy'n cyflwyno cais llwyddiannus am y swyddi gwag ar Gylchedau Cymru a Gorllewin Lloegr (lle y rhoddir caniatâd arbennig i ddirprwyon wrando rhywfaint o waith teulu) fynd ar gwrs hyfforddi Cyfraith Breifat y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol gyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl eu penodi.

5. Un o amodau parhau â'r penodiad yw bod gofyn i Ddirprwy Farnwyr Rhanbarth fynd i seminarau gloywi a pharhau o bryd i'w gilydd.

6. Mae angen i Ddirprwy Farnwyr Rhanbarth wybod am y datblygiadau cyfreithiol diweddaraf. Mae hyn yn golygu cryn waith darllen nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â'r achosion y maent yn eu treialu.

RHAGOR O WYBODAETH

Darparwyd yr wybodaeth fanylach a ganlyn yng nghyswllt swydd y Dirprwy Farnwr Rhanbarth gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac mae ar gael ar wefan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol:

- Disgrifiad Swydd Manwl (gwybodaeth am awdurdodaeth Barnwyr Rhanbarth a Dirprwy Farnwyr Rhanbarth sy'n delio â Chyfraith Teulu); a
- Braslun o Delerau ac Amodau'r Gwasanaeth

I gael gafael ar yr wybodaeth hon o hafan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol (www.judicialappointments.gov.uk), cliciwch ar 'Ymarferion Dethol', yna 'Ymarferion Dethol ar waith', yna 'Dirprwy Farnwr Rhanbarth (Sifil)', yna ar y ddogfen yr hoffech ei gweld.

Y BROSES DETHOL

Ffurflen gais

Mae manylion y rhinweddau a'r galluoedd y cewch eich asesu ar eu cyfer i'w gweld yn y Ffurflen Gais. Gallwch sôn am holl ystod eich gwaith a'ch profiad personol er mwyn dangos bod gennych y rhinweddau a'r galluoedd hyn, gan gynnwys, er enghraifft, gwaith gwirfoddol neu unrhyw gyhoeddiad yr ydych wedi cyfrannu ato. Byddwch yn benodol wrth roi gwybodaeth.

Amserlen

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau	**22 Hydref 2009**
Dyddiad amodol ar gyfer y Prawf Cymhwyso	**13 Ionawr 2010**
Dyddiadau amodol ar gyfer y Diwrnod Dethol	**22 Mawrth 2010 tan 16 Ebrill 2010**

Llunio'r Rhestr Fer

Y cam nesaf yn y broses yw prawf cymhwyso. Y prawf cymhwyso fydd yr unig ddull a ddefnyddir i lunio rhestr fer o'r ymgeiswyr ar gyfer diwrnod dethol yr ymarfer dethol hwn. Mae llunio'r rhestr fer yn broses gystadleuol, felly bwriedir i'r prawf fod yn heriol, dan bwysau amser, a bydd angen sefyll y prawf dan amodau arholiad.

Gwahoddir pob ymgeisydd cymwys i brawf cymhwyso ysgrifenedig. Y dyddiad ar gyfer hyn ar hyn o bryd yw 13 Ionawr 2010 (er y gellir ychwanegu dyddiad prawf arall os yw'r nifer o geisiadau'n ddigon uchel).Bydd mwy nag un eisteddiad yn ystod y dydd. Rhagwelwn y bydd oddeutu 15 o leoliadau profi o amgylch Cymru a Lloegr. Disgwylir ichi fod ar gael ar yr un diwrnod a ddewisir ar gyfer cynnal y prawf. Bydd angen i ymgeiswyr feddwl o ddifri ynghylch ar ba adeg o'r dydd y byddai'n well ganddynt sefyll y prawf. Rhoddir gwybodaeth fanylach i ymgeiswyr cymwys cyn trefnu'r prawf.

Sylwch, os gwelwch yn dda, er y caiff yr holl rinweddau a'r galluoedd a restrir yn y Ffurflen Gais eu hasesu fel rhan o'r broses dethol, na chaiff pob un eu hasesu yn ystod cam llunio'r rhestr fer. Bwriedir i'r prawf asesu:

- Gallu Deallusol - y gallu i ddirnad a dadansoddi gwybodaeth yn gyflym;
- Rhinweddau Personol - barn gadarn a phendantrwydd;
- Awdurdod a Sgiliau Cyfathrebu - y gallu i egluro'r drefn ac unrhyw benderfyniadau'n glir ac yn gryno i bawb sy'n berthnasol;
- Effeithlonrwydd - y gallu i weithio'n gyflym a than bwysau, y gallu i drefnu amser yn effeithiol a llunio dyfarniadau clir ar sail rheswm yn ddi-oed.

I gael rhagor o wybodaeth am brofion ac i weld enghraifft o brawf blaenorol, ewch i'n gwefan yn **www.judicialappointments.gov.uk.** I gael gafael ar yr wybodaeth hon o hafan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol, cliciwch ar 'Ymarferion Dethol', yna 'Ar Agor i Geisiadau', yna 'Dirprwy Farnwr Rhanbarth (Sifil)', yna ar y ddogfen yr hoffech ei gweld.

Canlyniad y prawf cymhwyso

Detholir ymgeiswyr ar gyfer y cam nesaf ar sail canlyniadau'r prawf cymhwyso'n unig. Bydd pob rhinwedd a gallu a restrir ar y Ffurflen Gais yn cael eu hasesu yn ystod y cam nesaf. Anfonir rhagor o fanylion gyda'ch gwahoddiad i fod yn bresennol. Mae'n ddrwg gennym na allwn roi esboniad ysgrifenedig i ymgeiswyr na chânt eu rhoi ar y rhestr fer.

Geirdaon

Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i bobl sydd mewn sefyllfa dda i wybod dystio i ba raddau yr ydych yn cyflawni'r rhinweddau a'r galluoedd. Fel rheol, byddwn yn cysylltu â chanolwyr ar ôl y prawf cymhwyso ond cyn y diwrnod dethol ac fe'u hanogir i ddefnyddio deunyddiau gwerthuso os yw'r rheini ar gael. Bydd y deunydd a ddarperir gan ganolwyr fel rheol yn dylanwadu ar benderfyniadau'r panel dethol a'r penderfyniadau dethol terfynol gan Gomisiynwyr.

Enwebu canolwyr

Fe'ch gwahoddir i enwebu hyd at **dri chanolwr** sy'n eich adnabod yn dda, naill ai'n bersonol neu'n broffesiynol. **Rydym yn argymell yn gryf ichi sicrhau nad yw hyn yn peri gwrthdaro rhwng buddiannau i'ch canolwr.**

Enwebeion y Comisiwn

Mae'n bosibl hefyd y bydd y Comisiwn yn gofyn am eirdaon gan y rheini a enwir yn yr adran o'r pecyn hwn ' canolwyr a enwebir gan y Comisiwn'.

Rhowch enw, teitl, swydd a chyfeiriad eich canolwyr barnwrol a phroffesiynol. Cewch ddweud wrthym hefyd os nad ydych am inni fynd at y canolwr proffesiynol perthnasol yn awr, ond rhaid ichi roi rhesymau dros hynny. Os nad ydych yn dal swydd farnwrol ar hyn o bryd ac nad ydych wedi enwi'ch canolwr proffesiynol perthnasol, rhaid ichi awgrymu canolwr arall sy'n gyfarwydd â'ch gwaith.

Diwrnodau dethol

Os cewch eich rhoi ar y rhestr fer, byddwch yn cael eich gwahodd i ddiwrnod dethol. Bydd y diwrnod dethol ar gyfer yr ymarfer hwn yn cynnwys cyfweliad gan banel a chwarae rôl. Anfonir rhagor o fanylion gydag unrhyw wahoddiad i fod yn bresennol. Darperir asesiadau cyffredinol y panel i'r Comisiynwyr pan fyddant yn gwneud eu penderfyniadau o ran dethol.

Ymgynghoriad statudol

Fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, bydd asesiadau cyffredinol y panel o'r ymgeiswyr sy'n debygol o gael eu hystyried i gael eu dethol gan y Comisiwn yn cael eu hanfon at yr Arglwydd Brif Ustus ac at ail unigolyn sydd wedi dal y swydd neu sy'n meddu ar brofiad perthnasol arall. Ar gyfer yr ymarfer hwn, yr Uwch Farnwr Llywyddol, yr Arglwydd Ustus John Goldring, fydd yr ail ymgynghorai.

Archwilio cymeriad

Mae'n ofynnol mai dim ond pobl a chanddynt gymeriad da sy'n cael eu dethol gan y Comisiwn. Bydd y Comisiwn yn cynnal archwiliadau ar yr holl ymgeiswyr sy'n debygol o gael eu hystyried i gael eu dethol, a bydd canlyniadau'r archwiliadau hyn, ynghyd â gwybodaeth y mae'r ymgeiswyr wedi'i chynnwys ar y Ffurflen Gais, yn cael eu hasesu.

Penderfyniadau o ran dethol

Gan eistedd fel pwyllgor, bydd y Comisiwn yn ystyried yr wybodaeth a gasglwyd am yr ymgeiswyr, a fydd yn cynnwys adroddiad asesiad cyffredinol y panel ar y diwrnod dethol, er mwyn dethol yr ymgeiswyr hynny i'w hargymell i'r Arglwydd Ganghellor.

Gwrthdaro rhwng Buddiannau

Rhestrir y Comisiynwyr Penodiadau Barnwrol ar gefn y pecyn hwn. Ni ddylech enwebu Comisiynydd yn ganolwr. Dylech nodi hefyd ar y Ffurflen Gais os ydych yn perthyn i unrhyw un o'r Comisiynwyr mewn unrhyw ffordd, neu os ydynt yn eich adnabod, gan roi'r manylion.

Canlyniad yr ymarfer dethol

Cewch wybod trwy lythyr am hynt eich cais. Os nad fyddwch yn llwyddiannus yn ystod cam diwrnod dethol y broses, cewch ofyn am esboniad ysgrifenedig. Dylech wneud y cais hwn o fewn chwech wythnos i ddyddiad y llythyr sy'n eich hysbysu nad ydych wedi bod yn llwyddiannus. Byddwn yn ceisio ymateb i'ch cais o fewn 20 diwrnod gwaith.

Y drefn gwyno

Os nad ydych yn fodlon ar unrhyw agwedd ar y ffordd y cafodd eich cais ei drin, cyfeiriwch at y weithdrefn gwyno sydd wedi'i chyhoeddi gan y Comisiwn. Mae honno ar gael ar ein gwefan, neu ar bapur, dim ond ichi ofyn.

Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am broses ddethol a gofynion y Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol ewch i'n gwefan yn www.judicialappointments.gov.uk

CYSYLLTIADAU A RHAGOR O WYBODAETH

Cael ffurflen gais

Mae'r holl wybodaeth am wneud cais am yr ymarfer dethol hwn ar gael yn www.judicialappointments.gov.uk.

Mae modd cael Ffurflen Gais ar gyfer yr ymarfer dethol hwn ar ffurf electronig drwy ei llwytho i lawr oddi ar y wefan.

Cysylltwch â thîm y Gwasanaeth Ceisiadau Penodiadau Barnwrol y Comisiwn os dymunwch gael copi papur o'r Ffurflen Gais neu'r Pecyn Gwybodaeth, neu os oes gennych unrhyw gwestiwn ynglŷn â chyflwyno'ch cais.

Os oes angen y ffurflen a/neu'r pecyn arnoch ar fformat gwahanol, er enghraifft mewn Braille, cysylltwch â thîm y Gwasanaeth Ceisiadau.

Cydnabod eich cais

Dylech gael cydnabyddiaeth i'ch cais o fewn pum niwrnod gwaith ar ôl inni ei dderbyn. Os na fyddwch wedi clywed dim, cysylltwch â thîm y Gwasanaeth Ceisiadau drwy ffonio neu anfon e-bost.

Manylion cysylltu

1. Gwasanaeth Ceisiadau Penodiadau Barnwrol:

Cyfeirnod: 00435 (Defnyddiwch y cyfeirnod hwn ar bob gohebiaeth os gwelwch yn dda)

Gwasanaeth Ceisiadau Penodiadau Barnwrol
3ydd Llawr, Steel House
11 Tothill Street
Llundain SW1H 9LH
DX 149822 WESTMINSTER 6
E-bost jaas@jac.gsi.gov.uk
Ffôn: 0203 334 0123

2. Tîm yr Ymarfer Dethol:

Tony Bellringer, Rheolwr yr Ymarfer Dethol
E-bost: tony.bellringer@jac.gsi.gov.uk
Ffôn: 020 3334 0553

Kate Williams, Dirprwy Reolwr yr Ymarfer Dethol
E-bost kate.williams@jac.gsi.gov.uk
Ffôn: 020 3334 0336

3. Cyfarwyddwr:

Jane Andrews: 020 3334 0508

CANOLWYR A ENWEBIR GAN Y COMISIWN PENODIADAU BARNWROL

Mae'n bosibl y bydd y Comisiwn hefyd yn gofyn am eirda gan y categorïau hynny a restrir isod.

Canolwyr barnwrol

Os ydych yn eistedd ar Dribiwnlys, Llywydd y Tribiwnlys neu rywun cyfatebol.

Os ydych yn dal swydd farnwrol arall, cysylltwch â'r Comisiwn er mwyn inni ystyried pwy y dylid ei enwebu'n ganolwr barnwrol ichi.

Canolwr proffesiynol

Os mai twrnai ydych neu os ydych yn Gymrawd yn Ilex Fellow sy'n gweithio i gwmni o dwrneiod, eich partner rheoli neu'ch partner ecwiti perthnasol.

Os mai bargyfreithiwr ydych, Pennaeth eich Siambrau.

Os ydych yn gyflogedig, eich rheolwr llinell neu rywun cyfatebol.

COMISIYNWYR Y COMISIWN PENODIADAU BARNWROL

Cadeirydd y Comisiwn

Y Farwnes Usha Prashar CBE

Aelodau

Mrs Ustus Jill Black DBE

Y Fonesig Lorna Boreland-Kelly DBE

Yr Athro Y Fonesig Hazel Genn DBE CF

Yr Arglwyddes Justice Heather Hallett DBE

Ei Hanrhydedd y Barnwr Frances Kirkham

Syr Geoffrey Inkin OBE

Mr Edward Nally

Ms Sara Nathan OBE

Y Barnwr Rhanbarth Charles Newman

Ei Anrhydedd y Barnwr David Pearl

Mr Francis Plowden

Ms Harriet Spicer

Mr Jonathan Sumption OBE CF

Yr Arglwydd Ustus Roger Toulson